| CONWY<br>CYNGOR BWRDEISTREF SIROL<br>COUNTY BOROUGH COUNCIL | **Polisi Amgylcheddol**<br>**Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy** |
|---|---|

## 1.0 Datganiad Polisi

1.1 Mae'r Cyngor wedi datgan argyfwng hinsawdd ac yn ymrwymo i sicrhau bod y sir yn parhau i fod yn gartref bywiog, hyfyw a chynaliadwy i'n plant ac i genedlaethau'r dyfodol.

1.2 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn ymrwymedig i'r canlynol:

- Dod yn ddefnyddiwr di-garbon net erbyn 2030;
- Diogelu'r amgylchedd drwy leihau effeithiau negyddol ein gweithgareddau a bod yn arweinwyr cymunedol wrth hyrwyddo gwaith rheoli amgylcheddol cyfrifol;
- Nodi a chydymffurfio gyda'r holl rwymedigaethau cydymffurfio amgylcheddol perthnasol i'n sefydliad;
- Atal llygredd aer, dŵr a thir o'n gweithgareddau a cheisio lleihau llygredd o ffynonellau eraill.

1.3 Mae'r System Rheoli Amgylcheddol a weithredir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cydymffurfio â Safon ddiweddaraf y Ddraig Werdd ar gyfer Rheolaeth Amgylcheddol 2016.

## 2.0 Cwmpas y Polisi

2.1 Mae Polisi Amgylcheddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cwmpasu holl wasanaethau'r Awdurdod. Mae hyn yn cynnwys Gwasanaethau Corfforaethol, Economi a Diwylliant, Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau, Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai, Gwasanaeth Asesiadau Refeniw a Budd-daliadau, Gofal Cymdeithasol ac Addysg.

2.2 Mae'r prif agweddau amgylcheddol o'n gweithgareddau yn cysylltu â'n blaenoriaethau amgylcheddol ym meysydd allyriadau nwyon tŷ gwydr, y defnydd o adnoddau naturiol, rheoli gwastraff, rhyddhau elifion masnach a storio tanwydd a pherygl llygru cysylltiol.

## 3.0 Amcanion Gwella

3.1 Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2022-2027 wedi'i alinio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 ac mae'n canolbwyntio ar 9 maes blaenoriaeth:

1. Mae pobl yng Nghonwy'n gwerthfawrogi ac yn edrych ar ôl yr amgylchedd.
2. Mae pobl yng Nghonwy yn byw mewn sir gydag economi lewyrchus gyda diwylliant yn ganolog iddi.
3. Mae pobl yng Nghonwy wedi'u haddysgu ac yn fedrus.
4. Mae gan bobl yng Nghonwy fynediad at lety fforddiadwy ac addas o safon uchel sy'n gwella safon eu bywyd.
5. Mae pobl yng Nghonwy'n ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel.
6. Mae pobl yng Nghonwy'n Iach.
7. Mae pobl yng Nghonwy yn byw mewn sir ble mae'r Gymraeg yn ffynnu, a gall pobl gymryd rhan mewn pob agwedd ar fywyd cymunedol yn Gymraeg.
8. Mae pobl yng Nghonwy yn cael gwybodaeth, yn cael eu cynnwys ac yn cael llais a gallant gyfrannu at gymuned ble mae eu cefndir a'u hunaniaeth yn cael ei werthfawrogi a'i barchu.
9. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn wydn.

3.2 Caiff perfformiad tuag at gyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol ei fonitro'n agos ac adroddir amdano yn flynyddol.

## 4.0 Adolygiad a Chymeradwyaeth

4.1 Caiff y polisi hwn ei adolygu o leiaf un waith y flwyddyn neu'n amlach, yn unol ag anghenion gweithredol ac anghenion busnes. Fel rhan o'r adolygiad, caiff y polisi hwn ei gyflwyno i Fwrdd Rhaglen Her yr Hinsawdd i gymeradwyo unrhyw ddiwygiadau.

**Cymeradwywyd:** *Noddwr y Rhaglen*, Rhaglen Her yr Hinsawdd